# Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## CWLS (2) 03-06 (p6)

### Dyddiad: 16 Chwefror 2006
### Amser: 9:00 am – 12:00 pm
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 1

#### Adroddiad Y Gweinidog Dros Ddiwylliant, Y Gymraeg A Chwaraeon

#### 1. Y Celfyddydau

#### 1.1 Gwobr Artes Mundi

Agorwyd arddangosfa Gwobr Artes Mundi i’r cyhoedd yn Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru ar 11 Chwefror. Y tro hwn eto, mae’r arddangosfa am ddim a bydd yn para tan 7 Mai.

Mae Artes Mundi 2006 yn adeiladu ar lwyddiant arddangosfa 2004 ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfrannu £100k tuag at gynnal yr arddangosfa eleni. Mae’n cynnwys nifer o artistiaid ffres ac yn parhau i ddathlu diwylliant gweledol o bedwar ban byd. Mae gwaith yr wyth artist a gyrhaeddodd y rhestr fer yn ymwneud â syniadau am ffurf neu gyflwr pobl ac mae’n cyfrannu at ein dealltwriaeth o ddynoliaeth.

Mae Artes Mundi yn cynnwys arddangosfa bwysig, digwyddiad cyhoeddus a rhaglen addysgol a chydweithir â’r BBC i gynhyrchu nifer o raglenni dogfen ar gyfer y teledu, cynhadledd a chyhoeddiad. Sefydlwyd cronfa o £30,000 fel y gellir prynu darnau gan rai o’r artistiaid ar y rhestr fer ar gyfer Casgliadau Cenedlaethol Cymru a bydd un o’r artistiaid yn ennill y wobr o £40,000.

Mae Sue Williams, a aned yng Nghernyw ac sy’n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd erbyn hyn, wedi cyrraedd y rhestr fer. Mae ei gwaith hi’n cyfleu ei hymateb angerddol i gyflwr pobl; diddordeb mawr mewn ffantasïau ffeministiaeth, rhywioldeb a rhywedd a’r syniad o chwant.

#### 1.2 Polisi Diwylliant

Yn dilyn y bleidlais yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher, 1 Chwefror, byddaf yn gwneud datganiad i’r Pwyllgor.

#### 2. Amgueddfeydd A Llyfrgelloedd

### 2.1 ‘Casglu Cerameg Gyfoes’ Canolfan Grefftau Rhuthun

Ar 20 Ionawr, bûm yn lansio ‘Casglu Cerameg Gyfoes’ yng Nghanolfan Grefftau Rhuthun, fel rhan o raglen ‘Celf Cymru Gyfan - ArtShare Wales’. Nod y rhaglen yw dangos eitemau o’r casgliadau cenedlaethol mewn rhwydaith o orielau rhanbarthol fel a ganlyn:

- Canolfan Grefftau Rhuthun
- Oriel Mostyn yn Llandudno
- Oriel Davies yn y Drenewydd
- Oriel Glynn Vivian yn Abertawe a
- Castell Bodelwyddan.

Mae’r arddangosfa’n dathlu’r gwaith o gasglu celfyddyd gyfoes ac mae’n dangos un darn o waith gan un ar ddeg o artistiaid a brynwyd gan Amgueddfa Cymru - National Museum Wales ar gyfer ein casgliadau parhaol, ochr yn ochr â darn newydd o waith gan bob un o’r artistiaid sydd ar gael i’w brynu. Mae’r arddangosfa’n tynnu sylw at bolisi’r Amgueddfa ar gyfer casglu Celfyddyd Gymwysedig sef cael detholiad o’r gweithiau gorau o Gymru a gwaith arwyddocaol o’r tu allan i Gymru.

## 3. Chwaraeon

### 3.3 Partneriaeth Hamdden Chwaraeon Awyr Agored Gogledd Orllewin Cymru

Bûm yn lansio Partneriaeth Chwaraeon Awyr Agored Gogledd Orllewin Cymru yng Nghanolfan Chwaraeon Dwr Plas Menai ar 9 Chwefror.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n rhoi chwistrelliad o £300k i’r bartneriaeth dros bedair blynedd. Mae’n enghraifft o gydweithio rhwng Cyngor Chwaraeon Cymru, awdurdodau lleol Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, Prifysgol Cymru, Bangor a Phlas y Brenin.

Mae’r bartneriaeth yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac, yn ogystal, i ddefnyddio’r Gymraeg.

### 3.4 Lansio ‘Pecyn Clwb Actif’ Clybiau Plant Cymru Kids Clubs

Helpais i lansio ‘Pecyn Clybiau Gweithgar’ Clybiau Plant Cymru Kids Clubs yng Nghanolfan Hamdden Bae Colwyn (Sadwrn 21 Ionawr). Mae’r pecyn yn cynnig gweithgareddau corfforol ymarferol a chanllawiau i weithwyr chwarae sy’n gysylltiedig â’r targedau cyfranogiad ar gyfer plant yn Dringo’n

Uwch. Yn ogystal, mae'r clybiau'n meithrin cysylltiadau clos â chydgysylltwyr Campau'r Ddraig.

### 3.5 Gwerthusiad o'r rhaglen Nofio am Ddim

Yn dilyn fy ymrwymiad yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher 25 Ionawr (OAQ0570 CWS), rhoddais gopi i Aelodau'r Pwyllgor o adroddiad gwerthuso diweddaraf InVest ar y rhaglen Nofio am Ddim. Mae'r adroddiad yn codi nifer o bwyntiau a, maes o law, byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor o'r camau y bwriadaf eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad.

### 3.6 Nofio am Ddim 60+, Cyfarfod gydag Age Concern Cymru

Cefais gyfarfod gyda chynrychiolwyr o Age Concern Cymru i drafod syniadau am sut i gael pobl hyn i wneud mwy o weithgarwch corfforol. Roedd gennyf ddiddordeb arbennig mewn clywed sut y gellid datblygu partneriaethau i gysylltu'r cynllun Nofio am Ddim â chynlluniau 'Heneiddio'n Dda' a 'Phencampwyr Pobl Hyn' Age Concern i godi ymwybyddiaeth o ymarfer corff rheolaidd.

### 3.7 Cyhoeddi nawdd i Tîm Cymru a chyhoeddi'r garfan pêl rwyd

Roedd yn bleser gennyf nodi Diwrnod Awstralia ar 26 Ionawr trwy gyhoeddi enwau'r 12 a fydd yng ngharfan pêl rwyd Tîm Cymru ar gyfer Gêmau'r Gymanwlad. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £150k o gronfa Her Iechyd Cymru i hyrwyddo'r tîm. Yn ystod y cyfarfod lansio, bu disgyblion o Ysgol Evan James, Pontypridd, yn cymryd rhan mewn dosbarth meistr ymarfer corff gyda'r chwaraewyr.

### 3.8 Cyflwyniad i chwaraewyr Sky Sports Victory Shield Cymdeithas Bêl-droed Cymru

Bûm yn seremoni wobrwyo Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru ar 15 Chwefror. Roedd yn bleser gennyf gyflwyno'u capiau i aelodau tîm pêl-droed dan 16 Cymru am gynrychioli Cymru yn nhwrnament y Victory Shield eleni. Fe wnaethon nhw chwarae'n ardderchog a dod yn gyd-fuddugwyr â Lloegr. Roeddwn wrth fy modd o weld ein chwaraewyr ifanc yn datblygu cystal ac yn cyrraedd safon mor uchel.

## 4. Y Loteri A Digwyddiadau O Bwys

### 4.1 Pencampwriaethau Dwr Gwyllt y Byd

Bu gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr yn y bwriad i gynnal Pencampwriaethau Dwr Gwyllt y Byd yn y Bala yn nes ymlaen eleni. Dangosodd Llywodraeth y Cynulliad ymrwymiad i ddenu'r achlysur hwn i Gymru y llynedd trwy gynnig cyfraniad o £20,000.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod Undeb Canwio Prydain wedi penderfynu peidio â chynnal yr achlysur yn y Bala oherwydd anawsterau ariannol a'u bod wedi rhoi'r digwyddiad yn ôl yn nwylo'r Ffederaswin Canwio Rhyngwladol.

Cyfarfu fy swyddogion i â rhanddeiliaid allweddol ym mis Rhagfyr i geisio datrys yr anawsterau. Gwaetha'r modd, roedd materion ehangach yn codi ynghylch sefyllfa ariannol Undeb Canwio Prydain (BCU) a gallu Cymdeithas Ganwio Cymru i gwrdd â'r costau pe bai hyn yn effeithio ar drefniadau gollwng dwr i'r Ganolfan yn y dyfodol.

Rwyf i mor siomedig ag Aelodau'r Pwyllgor na fydd yr achlysur hwn yn dod i'r Bala eleni. Fodd bynnag, bydd fy swyddogion yn cynnal rhagor o drafodaethau gyda Chymdeithas Ganwio Cymru i weld pa wersi y gellir eu dysgu at y dyfodol.

## 5. CyMAL

### 5.1 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Ar 18 Ionawr, roeddwn yng Nghasnewydd i ddathlu llwyddiant awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru i ddatblygu gwell gwasanaethau mewn ymateb i Fframwaith cyntaf Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2002-2005. Lansiwyd y Fframwaith gennym dair blynedd yn ôl ac roedd yn pennu 23 o safonau er mwyn sicrhau bod llyfrgelloedd yn cynnig gwasanaethau da i ddefnyddwyr. Gwelwyd gwelliannau rhagorol yng ngwasanaethau llyfrgelloedd ledled Cymru dros y tair blynedd. Er enghraifft:

Cynnydd o 15% yn nifer yr ymwelwyr

Cynnydd o 13% mewn oriau agor

Cynnydd o 45% mewn gwariant ar ddefnyddiau ar gyfer y llyfrgelloedd

Ymwelais â llawer o lyfrgelloedd i weld y cynlluniau arloesol sydd ganddynt i annog rhagor o bobl i ddefnyddio'u gwasanaethau. Yn ogystal â chyflwyno plant i fyd llyfrau, erbyn hyn mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn ganolfannau uchel-dechnolegol sy'n cynnig addysg gydol oes a mynediad at wybodaeth o bedwar ban byd. Mae ar awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithiol ac mae CyMAL yn cydweithio'n agos iawn â nhw i'w helpu i ddatblygu gwasanaethau i ddenu cynulleidfaoedd newydd.

Ym mis Ebrill 2005, cyflwynwyd ail fframwaith o Safonau ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus gennym gyda'r nod o sicrhau rhagor o welliannau yng ngwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus.

## 6. CADW

### 6.1 Tai Gweithwyr Diwydiannol – Canllawiau Cadwraeth

Mae'n bleser gennyf ddweud bod y llyfryn diweddaraf mewn cyfres sy'n rhoi canllawiau ar yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gyhoeddi. Mae "Tai Gweithwyr Diwydiannol yng Nghymru" yn tynnu

sylw at arwyddocâd hanesyddol y nodweddion eiconig hyn ar dirwedd Cymru. Mae’r llyfryn yn cynnig cyngor ynghylch cadwraeth ac arferion da wrth addasu’r adeiladau hyn at ddibenion heddiw. Dyma’r degfed yn y gyfres o ganllawiau di-dâl sy’n cael eu dosbarthu i awdurdodau lleol, penseiri ac arbenigwyr eraill. Disgwylir i lyfryn arall yn y gyfres, "Adeiladau Amaethyddol Traddodiadol yng Nghymru" gael ei gyhoeddi yn y Gwanwyn 2006.

### 6.2 Grantiau ar gyfer Adeiladau Hanesyddol

Ar 16 Chwefror byddaf yn cyhoeddi’r pecyn diweddaraf o grantiau ar gyfer atgyweirio ac adfer rhai o’n hadeiladau hanesyddol pwysicaf. Rwy’n bwriadu rhoi rhagor o wybodaeth i aelodau, yn cynnwys llythyron at aelodau etholaethol ac aelodau rhanbarthol yn amlinellu’r grantiau a roddir yn eu hardal nhw.

### 6.3 Ymweliadau’r Gweinidog

Ar 18 Ionawr, bûm yn Eglwys Gadeiriol Sant Gwynllyw, Casnewydd, gyda Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon i weld y gwaith atgyweirio ac adfer y mae angen ei wneud yn y gadeirlan hon sy’n adeilad rhestredig Gradd I. Mae fy swyddogion yn cydweithio ag awdurdodau’r gadeirlan i lunio rhaglen waith a gaiff ei chyflawni fesul rhan dros ddeng mlynedd.

### 6.4 Digwyddiadau a Gweithgareddau Hanner Tymor yn henebion Cadw

Trefnwyd rhaglen o ddigwyddiadau hwyliog i deuluoedd ar gyfer wythnos y gwyliau hanner tymor o ddydd Sul 19 tan ddydd Sul 26 Chwefror yng Nghastell Caerffili, Castell Cricieth, Castell Cydweli ac Abaty Tyndyrn. Bydd plant yn cael eu hyfforddi’n farchogion, bathu darnau arian, gwrando ar chwedlau gwerin, gwylio sioeau pypedau a dysgu am fywyd yn y canol oesoedd. Mae’r rhaglen yn addas i deuluoedd ac yn eu hannog i grwydro’u heneb leol a mwynhau eu hunain. Mae’n rhan o raglen ehangach i annog rhagor o bobl i ddod i nabod ein hamgylchedd hanesyddol. Byddaf yn sôn am ddigwyddiadau eraill dros y misoedd nesaf.

## 7. Yr Iaith Gymraeg A’r Cyfryngau

### 7.1 Principality

Ar 25 Ionawr, roedd yn bleser gennyf fod yng nghyfarfod lansio swyddogol Gwefan Ddwyieithog Ceisiadau Morgeisi y Principality yng ngwesty’r Hilton, Caerdydd. Mae hon yn wefan wirioneddol arloesol ac mae’n rhoi cyfle i bobl yng Nghymru a thu hwnt wneud un o ymrwymiadau mwyaf eu bywyd ar-lein yn eu dewis iaith.

Mae’r Principality yn enghraifft ardderchog o gwmni yn y sector preifat sy’n gwerthfawrogi manteision niferus cynnig gwasanaeth dwyieithog o safon uchel i’w gwsmeriaid, yn cynnwys y manteision masnachol. Y wefan yw’r cam cyntaf tuag at nod y Gymdeithas o ddarparu llu o gyfleusterau e-fasnach

dwyieithog.

### 7.2 Cyhoeddi trefniadau cyllido prif bartneriaid grantiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fanylion ei raglen grantiau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y flwyddyn ariannol nesaf. Rhoddir cyfanswm o £4.2 miliwn mewn grantiau. Gwelir manylion yr holl grantiau yn:

http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cy/cynnwys.php?cID=6&pID=109&nID=1861 (Cymraeg)

http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/en/cynnwys.php?cID=6&pID=109&nID=1861 (Saesneg)

Bydd dros £2 filiwn yn mund i dri phrif bartner grantiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg: y Mudiad Ysgolion Meithrin, yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae i'r sefydliadau hyn le canolog yn strategaethau'r Bwrdd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Ychydig cyn y Nadolig, cytunais ar gyllid y flwyddyn nesaf ar gyfer y Mudiad Ysgolion Meithrin - £1.08m, yr Urdd - £606k a'r Eisteddfod Genedlaethol - £408k (a thaliad unwaith-yn-unig o £50k). Bydd pob un o'r sefydliadau hyn wedi cael cynnydd o dros 30% yn ystod tymor y Llywodraeth hon yn y Cynulliad.

Mae grant yr Urdd yn 2006-07 yn cynnwys £45k yn ychwanegol tuag at gost Cyfarwyddwr Ardal yn y Gogledd ac ymgyrch farchnata ar gyfer y grwp oedran 12 - 15.

Bydd yr Eisteddfod genedlaethol yn cael £50k yn ychwanegol y flwyddyn nesaf ar ben y grant sylfaenol o £408k. Bydd yr arian ychwanegol yn helpu'r Eisteddfod i barhau â'i rhaglen foderneiddio a sefydlogi.

## 8. Ymweliadau a Chyfarfodydd eraill y Gweinidog

Cwrdd â Iona Jones, Prif Weithredwr S4C

Celf yn y Cynulliad

Agoriad swyddogol Swyddfa Caerfyrddin Cyngor Celfyddydau Cymru

Siaradwyr cyweirnod yn Nghyfarfod Rhanddeiliaid Gweithgarwch Corfforol Castell-nedd Port Talbot

Gêm rygbi Cymru yn erbyn yr Alban ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad

Cinio Diwylliant Moslemaidd gydag NMW